

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd Cyf: EDC-16-00(t3)

Dyddiad:	1 Tachwedd 2000
Lleoliad:	Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Teitl:	Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth

Diben

Diben y papur hwn yw bod yn atodiad at y Cynllun Cyflawni Entrepreneuriaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor.

Y Cefndir – O Gynllun Gweithredu i Gynllun Cyflawni

2. Menter allweddol a gyhoeddwyd yn "Llwybr i Ffyniant" ym mis Gorffennaf 1998 oedd paratoi'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth. Cynhyrchodd y Grp Llywio, dan arweiniad y sector preifat, Gynllun Gweithredu a gymeradwywyd mewn egwyddor gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 29 Mawrth 2000.
3. Cytunodd y Pwyllgor y dylid trosi'r Cynllun Gweithredu yn ddogfen fanylach sy'n canolbwyntio ei sylw ar y 2-3 blynedd nesaf. Bwriedir i'r Cynllun Cyflawni fapio'r prif gamau y mae angen eu cymryd i hyrwyddo entrepreneuriaeth ar draws Cymru, ynghyd â thargedau/allbynnau manwl, asiantaethau arweiniol, a chostau cysylltiedig.
4. Nod y cynllun yw cyd-drefnu'r amrediad o raglenni a mentrau sydd eisoes mewn bodolaeth a rhoi hunaniaeth unedig iddynt. Mae rhai ohonynt wedi sicrhau cyllid drwy raglenni eraill. Bydd hyn yn sicrhau strategaeth ddatblygu hollgynhwysfawr. Mae'r cynllun yn nodi lefel yr adnoddau y mae eu hangen i gyrraedd paredd â graddfeydd tyfiant y DU dros gyfnod y rhaglen a sut y gellir peri lefel arafach o dyfiant os darperir lefel is o adnoddau.
5. Nododd y Cynllun Gweithredu dair prif her neu gamau gweithredu a droswyd bellach yn gynigion penodol:
 - **Adnabod y Cyfle** – codi proffil entrepreneuriaeth ar draws Cymru (Prif Gam Gweithredu 1), newid agweddau a sodro'r diwylliant entrepreneuriaidd yn fwy sownd o fewn Cymru – ac yn holl bwysig, o fewn y system addysg (Prif Gam Gweithredu 2);
 - **Creu Mentrau** – camau gweithredu i annog rhagor o fusnesau i ddechrau a thargedu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli gan gynnwys menywod, lleiafrifoedd

ethnig a siaradwyr Cymraeg (Prif Gamau Gweithredu 3-5); a

- **Mynd am Dwf** – hybu busnesau bach sydd am dyfu (Prif Gam Gweithredu 6)

6. Yn ogystal, mae'r Cynllun Cyflawni yn dod â nifer o elfennau ynghyd gan gynnwys:

- Modd i gyflawni amcanion y Cytundeb Partneriaeth gan gynnwys Strategaeth Cyfradd Genedigaethau Busnesau Cymru (Prif Gam Gweithredu 5 Llinyn 1);
- Pwysigrwydd canolog Entrepreneuriaeth fel prif gymhelliant y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol sydd ar ddod;
- Cyfle i gysylltu entrepreneuriaeth â datblygu ac adfywio cymunedau (Prif Gam Gweithredu 4 Llinyn 1);
- Cyfle a roddir gan raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd fel modd i roi'r pecyn o fesurau ar waith; a
- Cyfle i wneud y defnydd mwyaf o fentrau hen a newydd (e.e. Cyllid Cymru).

Oblygiadau Ariannol, Allbynnau a'r Camau Nesaf

7. Yn y meysydd hyn, tynnir sylw y Pwyllgor at:

- Cost pob cam gweithredu/gweithgaredd fel y'u cynhwysir yn yr adran berthnasol o'r Cynllun ac fel y'u crynhoir yn adran 10 ar dudalen 61;
- Ar allbynnau/effeithiau, t. 14, adran 1.11 – "Beth ddylai'r Cynllun Cyflawni ei gyflawni"; a
- Tudalen 19, adran 1.15 – "Beth yw'r camau nesaf"

Casgliad

8. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo'r dull gweithredu a'r cynigion rhoi ar waith, ystyried yr oblygiadau ariannol a gwneud argymhellion i'r Cynulliad.

Hydref 2000 Yr Is-adran Polisi Economaidd